Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 05.06.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol:Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Danny Davies, Derick Lock, Eirion Evans, Pamela Jones, Gethin Edwards, Cynghorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau:Arwel Nicholas, Elfed Davies

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Derbyniwyd eu bod yn gywir – GE & PJ	
Materion yn Codi	Swyddfa Archwilio Cymru – Clerc yn adrodd crynodeb o'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Deryck Evans o'r SAC. IRPW – Clerc yn son am ateb I'r llythyr ac I'r IRPW ddweud mae Cyngor Sir Gâr sydd yn gosod cyflog y Prif Weithredwr. Cynllun Gwella Trafnidiaeth – Clerc wedi cael ateb oddi wrth J McEvoy; angen trefnu dyddiad I gyfarfod I drafod cymal olaf y Cynllun. Darren King/Tony Williams – Clerc wedi derbyn ateb oddi wrth y ddau, sydd yn cyfeiro at waith cynnal a chadw ar heolydd Llanpumsaint a'r cylch. Bwriedir ail osod wyneb heol Bancyffordd rhywbryd pan fydd cyllyd yn caniatau a llenwi tyllau/cryfhau ymyl yr heol heibio Bwthyn/ Bancyn. DD yn rhyfeddu at effeithiau'r holl doriadau.	
Gohebiaeth	Un Llais Cymru – Swyddog newydd wedi ei benodi I weithio yn Ne Cymru; Mel ab Owain. Clerc yn awgrymu ei wahodd I gyfarfod o'r Cyngor a'r Cynghorwyr yn cytuno. Llwybrau Cyhoeddus – Clerc wedi derbyn cais oddi wrth y Sir I wneud gwaith cynnal a chadw ar lwybrau cyhoeddus y plwyf. Y Cynghorwyr o'r farn byddai goblygiadau wrth wneud hynny a chynyddu fydde'r cyfrifoldebau. IJ yn awgrymu fyddai modd codi'r Praesept. GDPR – Un Llais Cymru wedi bod yn trafod y Ddeddfwriaeth newydd Diogelu Data ac wedi llwyddo I eithrio Cynghorau bach rhag orfod penodi Swyddog Diogelu Data. Yswiriant – Cytundeb gyda Zurich yn gorffen eleni; Clerc I chwilio am brisiau.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Trywydd, £54.00 – Cytunwyd ei dalu; PJ & EE Cyflog Clerc, £130.60 – GE & DD Costau Etholiad – Clerc I holi a gofyn am eglurhad Llogi Ystafell y Neuadd, £50.00 – DD & PJ	
UFA	GE – Dim	

	PJ – Heol Rhiw Graig a Bryncene mewn cyflwr gwael. EE – Dim DL – Trafnidiaeth yn anwybyddu 20 mya heibio'r Ysgol IJ – Dim DD – Defnyddwyr y Cae Chwarae yn awyddus I ddenyddio tai bach ond dim ar gael. Os na fydd cyfleusterau, mi fydd defnyddwyr y Cae yn gorfod mynd I fannau arall. DL yn dweud na fyddai'r Neuadd yn abl I fforddio I'w rhedeg. Clerc I ysgrifennu at Bwyllgor y Neuadd. DJ - Dim	
Cyfarfod yn gorffen	9.00	

Cafwyd yn gywir : …….. (Cadeirydd)

Dyddiad : ……..

Cafwyd yn gywir : …….. (Ysgrifennydd)

Dyddiad: ……